**Pwyllgor Diwylliant - CC-14-01(p.1)**

Dyddiad: 19eg Gorffennaf 2001

Amser: 14.00-16.30 o'r gloch

Lleoliad: Ystafell Bwyllgor 1, y Cynulliad Cenedlaethol

**Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru (AOCC)**

**National Museums & Galleries of Wales (NMGW)**

**Cynlluniau ar gyfer Arddangos Celfyddyd Gain a Chelfyddyd Gymwysedig yn y Dyfodol**

Yng Nghynllun Gweithredol AOCC ar gyfer 2000/2001, bu i ni ymrwymo i'r dasg isod:

> 'Ymgynghori ar sut y dylid arddangos celfyddyd gain a chymwysedig yn y dyfodol gyda'r nod o roi mwy o amlygrwydd i weithiau (1) o darddiad Cymreig neu a ysbrydolwyd gan Gymru a (2) o'r cyfnod wedi 1945.'

## 1.0 Cefndir

Sefydlwyd Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru (AOCC) trwy Siarter Frenhinol ym 1907, ac mae'n gorff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad. Ei amcanion yw:

> 'Hyrwyddo addysgu'r cyhoedd yn bennaf trwy ddarlunio'n llwyr ddaeareg, mwynyddiaeth, soleg, botaneg, ethnograffeg, archaeoleg, celfyddyd, hanes a diwydiannau arbennig Cymru ac yn gyffredinol (a) trwy gasglu, diogelu, egluro a chyflwyno gwrthrychau a phethau …. mewn cysylltiad â hynny a (b) trwy gasglu, diogelu, egluro a chyflwyno gwrthrychau a phethau (gan gynnwys lluniau, engrafiadau, cerfluniaeth a phob gwaith celfyddyd gain o unrhyw fath) boed yn gysylltiedig â Chymru neu beidio a all helpu i hyrwyddo addysg…' (Siarter

Frenhinol - 1907, newidiwyd 1911 a 1991)

Erbyn hyn, mae AOCC yn gweithredu ar wyth safle ledled Cymru:

- Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol (AOG) (Parc Cathays)
- Amgueddfa Werin Cymru (Sain Ffagan)
- Amgueddfa Lechi Cymru (Llanberis)
- Amgueddfa Diwydiant Gwlân Cymru (Dre-fach Felindre)
- Amgueddfa'r Lleng Rufeinig (Caerllion)
- Amgueddfa Rufeinig Segontium (Caernarfon)
- Oriel T Turner (Penarth)
- Amgueddfa Lofaol Pwll Mawr (Blaenafon)

Yr hynaf o'r rhain, a phencadlys AOCC hyd heddiw, yw'r Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol amlddisgyblaethol (y cyfeirir ati yma fel AOG). Agorwyd yr adeilad clasurol hardd hwn yng Nghanolfan Ddinesig Caerdydd ym 1922, ac fe gafodd ei ailwampio a'i ymestyn ddiwethaf ym 1988-1993.

Yn adeilad yr Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol y mae'r adrannau archaeoleg a nwmismateg, bioamrywiaeth a bywydeg gyfundrefnol, a daeareg, y rhan fwyaf o wasanaethau canolog ac ategol AOCC, a'r adran gelfyddyd gain a chymwysedig a drafodir yn y nodyn/papur hwn.

## 2.0 <u>Cyd-destun y gwaith cynllunio</u>

Mae Cyfarwyddiaeth newydd AOCC wedi ceisio sicrhau bod y broses ymgynghori hon yn cael ei datblygu'n llawn ac mae iddi ran bwysig yn ein gwaith cynllunio.

Cynlluniwyd y gwaith ad-drefnu mawr diwethaf ar yr arddangosfa gelfyddyd ddiwedd y 1980au ac fe wnaed y gwaith pan gwblhawyd yr orielau newydd ym 1993. Mae'n sir, felly, ei bod yn bryd adolygu'r sefyllfa.

Yn ogystal, rydym yn ymwybodol o drafodaethau ehangach yngln â natur celfyddyd Gymreig a dyfodol y celfyddydau gweledol yng Nghymru a hoffem sicrhau bod y trafodaethau hyn o gymorth i ni wrth gynllunio ar gyfer AOCC.

Wrth ystyried swyddogaeth AOCC a'r cynlluniau ar gyfer celfyddyd gain a chymwysedig, chymhlethir y sefyllfa nid yn unig gan berthnasoedd mewnol yn yr AOG ac AOCC, fel y berthynas rhwng yr Adran Gelfyddyd ac adrannau eraill sy'n casglu, ond hefyd gan fframweithiau cynllunio sy'n cael eu creu gan eraill, fel Cyngor Celfyddydau Cymru neu Gyngor Amgueddfeydd Cymru, yn ogystal â'r Cynulliad Cenedlaethol. Er enghraifft, mae'r ymarferiad hwn yn digwydd yng

nghyd-destun Adolygiad Pum-Mlynyddol y Cynulliad Cenedlaethol o AOCC. Mae hefyd yn gysylltiedig ag ymarferiadau mewnol yn cynnwys adolygiad pensaer o le yn yr AOG.

## 3.0 Y broses ymgynghori

Ceir crynodeb o'r broses ymgynghori yn y dyfyniad ar ddechrau'r papur hwn ac mae rhan gyntaf y broses wedi cynnwys:

- trafodaethau gydag amrediad eang o bobl sy'n ymwneud â'r celfyddydau, neu sydd â phrofiadau tebyg mewn sefydliadau eraill. Cynhaliwyd pum sesiwn ymgynghori a drefnwyd ac a gofnodwyd gan berson annibynnol a bydd hyn yn sail ar gyfer rhannau nesaf y broses.

- cynhaliwyd 'cyfarfod agored' a oedd hefyd wedi'i drefnu a'i gofnodi gan berson annibynnol

- bydd gweithdai yn yr AOG yn dechrau ystyried sut y gellir mynd ati i gyd-gynllunio'r gwahanol agweddau ar y defnydd a wneir o'r adeilad.

Bwriad y rhan gyntaf yw rhoi cyfle i bobl gyfrannu eu syniadau am y materion sy'n ein hwynebu - yn hytrach na'n bod ninnau'n derbyn datganiadau am ein gwaith presennol neu ein dyfodol.

***Ceir copïau o'r amserlen a'r deilliannau, yn cynnwys yr ail rhan, yn yr atodiadau***

## 3.1 Materion sy'n codi a chwestiynau

Nodwyd y materion hyn mewn papurau briffio fel man cychwyn ar gyfer trafodaeth:

- Sut mae 'rhoi mwy o amlygrwydd i weithiau 1) o darddiad Cymreig neu a ysbrydolwyd gan Gymru, a 2) o'r cyfnod wedi 1945?

- Sut y mae gwahanol fudd-ddeiliaid, yng Nghymru a thu hwnt, yn deall gwaith Adran Gelfyddyd AOCC a'r materion a'r cyfyngiadau sy'n ei hwynebu?

- A ddylid ystyried arddangos gweithiau celfyddyd ac eitemau o gasgliadau archaeoleg, daeareg a bioamrywiaeth gyda'i gilydd neu ar wahân?

- Ym mha ffyrdd y mae AOG eisoes yn ‘Oriel Gelfyddyd Genedlaethol’?

- Sut y byddwn yn ymdrin â goblygiadau’r gwahanol opsiynau o ran adnoddau?

- A yw’r un materion yn codi mewn sefydliadau eraill, er enghraifft yn Iwerddon a’r Alban ac mewn rhannau eraill o’r byd, neu a yw’r materion sy’n ein hwynebu yn unigryw i ni neu i Gymru?

- Pa faterion sy’n gyffredin rhyngom a sefydliadau eraill yng Nghymru?

- Sut y gallem fynegi ein gwahanol swyddogaethau yn y dyfodol, e.e. gofalu am gasgliadau; arddangosfeydd dros dro; dangos a dehongli; ymestyn allan ac addysgu; cydweithio yng Nghymru; cydweithio y tu hwnt i Gymru?

- Beth yw goblygiadau cyfyngiadau adeilad Parc Cathays a’i botensial ar gyfer ei ddatblygu yn y dyfodol i Gelfyddyd? A ddylid ystyried y rhain mewn perthynas â manteision ac anfanteision y dewisiadau eraill?

**Trafodwyd y materion hyn yn rhan gyntaf yr ymgynghoriad, ond cawsant eu haddasu a’u mireinio yn y broses.**

**Felly, mae hwylusydd y broses, David Clarke, wedi paratoi adroddiad llawn wedi’i drefnu o gwmpas yr hyn oedd yn ymddangos iddo ef fel y themâu a ddeilliodd o’r cyfarfodydd.**

## 3.2 <u>Crynodeb o’r elfennau allweddol a themâu’r trafodaethau</u>

***Mae adroddiad llawn David Clarke, yr hwylusydd annibynnol, yn dilyn mewn adran ar wahân. Dyma grynodeb o batrwm a themâu ei adroddiad***

1. <u>Pam y mae angen trafodaeth ar arddangos gweithiau celfyddyd?</u>

Mae diwylliannau gweledol Cymru yn bwysig iawn yn y sefyllfa gymdeithasol a gwleidyddol sydd ohoni. Mae’n rhaid i AOCC arwain y gwaith o ddatblygu strategaethau soffistigedig i gyflwyno a chefnogi gwaith hanesyddol a chyfoes.

Mae llawer o bobl ym myd diwylliant yn cefnogi AOCC i wneud y gwaith hwn ond teimlir hefyd ei bod yn rhaid i'r Amgueddfa barhau i ennill y gefnogaeth hon trwy sicrhau newidiadau gwirioneddol a datblygiad yn ei waith o gasglu ac arddangos gweithiau celfyddyd.

AOCC yw'r corff gorau a mwyaf priodol i ddatblygu trafodaethau am oriel genedlaethol, neu syniadau eraill tebyg, yng ngoleuni ei arbenigedd, ei bersbectif a'i gasgliadau.

2. <u>Agweddau curadurol – y canon a'r stori</u>

Mae'r syniad o ddangos gweithiau Cymreig a gweithiau o'r tu hwnt i Gymru yn dal yn dderbyniol. Nid oes angen aberthu'r naill er mwyn y llall ond bydd y ffordd ymlaen yn cynnwys gwneud y ddau fath o waith yn fwy dealladwy ac esbonio'r mannau cyswllt rhyngddynt.

3. <u>Gwaith a swyddogaeth yr AOG - casglu ac arddangos</u>

Er bod y casgliad yn ffynhonnell amlwg ar gyfer arddangosfeydd, nid arddangos yw unig ddiben casglu. Rhoddir blaenoriaeth i ddatblygu strategaethau clir o ran arddangos a dehongli pa un bynnag a fydd hynny'n arwain at arddangos mwy neu lai o'r casgliad – cydlyniad y profiad yw'r allwedd, yn hytrach na nifer y darnau fydd i'w gweld.

Dylid pwysleisio bod y casgliad yn adnodd ymchwil a'i fod ar gael i'w ddefnyddio trwy ein Canolfan Gasgliadau yn Nantgarw a thrwy adnoddau digidol ar y rhyngrwyd.

Bydd unrhyw strategaeth newydd ar gyfer arddangos a dehongli'n gorfod mynd i'r afael â swyddogaethau staff.

4. <u>Gweithio yng Nghymru</u>

Wrth drafod materion sy'n codi mewn perthynas â'r AOG, mae llawer yn credu'n gryf na ddylid anwybyddu'r materion sy'n deillio o'i darpariaeth ledled Cymru nac o'r potensial i gydweithio â'r rhwydwaith o orielau ar hyd a lled y wlad.

5. <u>Y cenedlaethol a'r rhyngwladol</u>

Dylid dathlu diwylliant gweledol byw arbennig Cymru yng nghyd-destun diwylliant gweledol rhyngwladol. Felly bydd gwaith Cymreig penodol, hanesyddol a chyfoes, yn cael ei ddangos mewn ffordd gydlynus ond heb ei ynysu oddi wrth waith gweddill y byd.

6. <u>Cynnwys gwaith cyfoes</u>

Mae gwaith artistiaid Cymreig cyfoes yn rhan allweddol o'r ffordd y caiff diwylliant gweledol Cymru ei arddangos yn yr Amgueddfa ac, yn sicr, bydd yn elfen eiconig mewn unrhyw oriel genedlaethol newydd.

7. <u>Agweddau Amlddisgyblaethol a Rhyngddisgyblaethol</u>

Mae gan ddiwylliant gweledol pob cenedl ran neilltuol i'w chwarae yn natblygiad ac adnewyddiad yr hunaniaeth genedlaethol. Er mwyn deall naratif y diwylliant gweledol hwn, mae angen ei arddangos ar wahân i ddisgyblaethau eraill.

Fodd bynnag, ceir llawer o gyfleoedd i gydweithio â'r disgyblaethau eraill hyn mewn amryw o ffyrdd i adrodd straeon ehangach am y genedl, a thu hwnt i'r genedl.

Mae angen holi'r gynulleidfa a'r ddarpar gynulleidfa pa mor effeithiol yw cydleoli gwahanol ddisgyblaethau neilltuol mewn un adeilad.

8. <u>Syniadau ar gyfer diben a lleoliad Oriel Genedlaethol?</u>

Mae'r drafodaeth ynghylch dymunoldeb cael adeilad neu sefydliad newydd ymhell o gael ei datrys. Ar y naill law, gwelir cyfleoedd a rheidrwydd i adeiladu a dathlu diwylliant gweledol y genedl, ond dadleuir hefyd bod datblygu gwaith celf cyfoes o leiaf mor bwysig a chodi adeiladau newydd.

Mae'n bosib y gellir sicrhau'r amlygrwydd a'r adnoddau a ddaw i sefydliad newydd, heb dorri'r cysylltiadau â'r gweithiau celfyddyd rhyngwladol, y defnyddiau hanesyddol a'r casgliadau a'r arddangosiadau sy'n perthyn i ddisgyblaethau eraill, trwy ddatblygu safle Parc Cathays mewn ffordd uchelgeisiol.

Bydd angen adnoddau mawr i ddatblygu Oriel Genedlaethol a fyddai'n cyflawni'r holl ofynion hyn ac a fyddai'n gynaladwy, yn gadarn ac yn cael ei chydnabod yn rhyngwladol. Heb yr adnoddau hynny, mae'n bosib na fydd modd ymgymryd â'r gwaith datblygu a gwella y mae angen ei wneud ar hyn

o bryd.

9. Safbwynt y cyfarfod cyhoeddus agored

Er bod pobl o'r farn y dylai'r Amgueddfa weithio i ddatblygu a meithrin y consensws a ddisgrifir yn 3 uchod a bod angen gwneud rhagor o waith ar swyddogaeth, lleoliad a datblygiad o'r math, mynegwyd awydd clir i weld y drafodaeth yn symud ymlaen.

3. **Y Cynlluniau ar gyfer Rhan 2**

Yn awr, bydd AOCC yn treulio peth amser yn trafod ac yn mireinio ei ymatebion i'r materion a godwyd yn rhan gyntaf y broses. Bydd sylwadau'r cyfranwyr i'r rhan gyntaf yn dylanwadu ar y broses hon. Amgaeir amserlen lawn.

Bydd yn cyflwyno'i gynigion ar gyfer ymgynghoriad yn ail ran y broses ac fe gyhoeddir adroddiad cyflawn erbyn mis Ionawr 2002.

Bydd yr adroddiad yn trafod :

a. beth y gellir ei gyflawni yn y fframwaith cynllunio tair-blynedd
b. beth y gellir ei gyflawni yn y tymor hwy

**Casgliad**

Mae rhan gyntaf y broses ymgynghori ar ben. Mae'r adroddiad yn cynnwys nifer o faterion, pob un ohonynt yn hanfodol wrth gynllunio ar gyfer dyfodol AOCC. Maent yn faterion cymhleth ac felly bydd angen ymateb clir oddi wrth AOCC iddynt yn ail ran y broses.

Roedd canlyniadau rhan gyntaf yr ymgynghoriad yn ganlyniad cadarnhaol i AOCC. Gosodwyd llwyfan fel y gellir adeiladu ar berthnasoedd sy'n bodoli eisoes a chreu rhai newydd. Cadarnhawyd y cyfeiriad a'r dull gweithredu a fabwysiadwyd gan uwch reolwyr AOCC ac fe grewyd awyrgylch hyderus ar gyfer rhan nesaf y broses gynllunio.

**Michael Tooby**

**Cyfarwyddwr**

**Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol**

DCA

Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru

*Proses Ymgynghori ar Arddangos Gweithiau Celfyddyd*

*Adroddiad ar ran gyntaf yr ymgynghoriad*

gan David Clarke, Hwylusydd

Rhwng mis Chwefror a mis Mai 2001, cychwynnodd Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru ar ymarferiad y cyfeiriwyd ato yng Nghynllun Gweithredol yr Amgueddfa ar gyfer 2000/2001:

> "Ymgynghori ar sut y dylid arddangos celfyddyd gain a chymwysedig yn y dyfodol gyda'r nod o roi mwy o amlygrwydd i (1) weithiau o darddiad Cymreig neu a ysbrydolwyd gan Gymru a (2) o'r cyfnod wedi 1945."

Ar gyfer elfen gyntaf yr ymgynghoriad, cynhaliwyd tri chyfarfod gydag amrediad eang o bobl o wahanol feysydd ym myd y celfyddydau – artistiaid, curaduron, gweithwyr amgueddfa proffesiynol a oedd yn ymwneud ag arddangos gweithiau celfyddyd mewn mannau eraill a phobl a oedd yn ymwneud â materion diwylliannol yn fwy cyffredinol. Ceir rhestr o'r sawl a oedd yn bresennol yn Atodiad 1.

Yn dilyn hynny, cynhaliwyd dau gyfarfod a oedd yn ymwneud â gwaith ehangach yr

amgueddfa, y naill ar gyfer pobl a oedd yn ymwneud ag archaeoleg a’r llall i rai oedd yn gweithio ym maes astudiaethau natur.

Yn olaf, ar 17 Mai, cynhaliwyd cyfarfod a hysbysebwyd yn gyhoeddus. Daeth dros gant o bobl i’r cyfarfod hwn lle cafwyd anerchiadau gan Peter Wakelin, Jenni Spencer Davies, Siân Ede a Jonathan Jones.

Bwriad y cyfarfodydd hyn oedd paratoi’r ffordd ar gyfer y broses ymgynghori a sefydlu fframwaith ar gyfer y gwaith trafod a chynllunio a fydd yn dilyn.

Yn y pum cyfarfod cyntaf, cafwyd cyfraniadau gan bobl o amrediad eang o sefydliadau ym Mhrydain ac Iwerddon. Soniwyd am nifer o ffyrdd a ddefnyddiwyd i fynd i’r afael â materion tebyg yn y gwledydd hynny. Daeth pobl a oedd yn gweithio ym meysydd y celfyddydau a threftadaeth yng Nghymru â nifer o wahanol safbwyntiau a oedd o gymorth i bennu telerau a therfynau’r drafodaeth.

Daeth amrediad eang o bobl i’r cyfarfod agored, yn eu plith artistiaid, curaduron, athrawon celfyddyd a gweithwyr mewn orielau ac amgueddfeydd. Dylid nodi bod nifer sylweddol o Gyfeillion yr Amgueddfa’n bresennol ac mai diddordeb defnyddwyr yn hytrach na diddordeb proffesiynol oedd ganddyn nhw.

Cynhaliwyd un cyfarfod yn Oriel Mostyn, Llandudno, a’r lleill yn yr Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol, Caerdydd. Tua dwyawr oedd hyd yr holl gyfarfodydd. Roedd y sawl a gymerodd ran yn y pum cyfarfod cyntaf wedi cael y papurau briffio a restrir yn Atodiad 2.

Cafodd yr holl gyfarfodydd eu cyflwyno a’u cadeirio gennyf i. Daeth aelodau o staff AOCC i bob cyfarfod – yn bennaf i wrando ar y drafodaeth ac i wneud ychydig o sylwadau ffeithiol. Gweithiodd y polisi hwn yn dda, gyda’r staff allweddol, Michael Tooby ac Oliver Fairclough, yn helpu i esbonio ac egluro heb ddylanwadu ar gyfeiriad y drafodaeth.

Recordiwyd y cyfarfodydd ac fe wnaed trawsgrifiadau ohonynt. Defnyddiwyd y dogfennau hynny wrth baratoi’r crynodeb hwn.

Yn y crynodeb, rwyf wedi ceisio cyfuno llawer o gyfraniadau. Mae hynny, wrth gwrs, yn symleiddio’r drafodaeth. Fy nghyfrifoldeb i, nid y cyfranwyr, yw’r cyfuno ac unrhyw gamargraff a rydd hynny ar drafodaeth gymhleth y cyfarfodydd.

Mae’r crynodeb cyffredinol hwn yn cynnwys y chwe chyfarfod. Fodd bynnag, rwyf wedi gwneud crynodeb ar wahân o’r cyfarfod cyhoeddus agored. Gan fod y drefn a’r cylch gwaith yn wahanol, credwn y dylid caniatáu iddo ei lais ei hunan.

Dylid nodi ar y dechrau fel hyn beth yw ystyr dau fyrfodd a ddefnyddir. Roedd y trafodaethau’n

cyfeirio at swyddogaeth a gwaith Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru yn ei holl safleoedd yng Nghymru (AOCC) ac yn sôn yn fwy penodol am yr Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol ym Mharc Cathays (AOG). Pan fyddaf yn cyfeirio at ‘yr Amgueddfa’, rwy’n golygu y sefydliad yn gyffredinol ac nid yr adeilad ym Mharc Cathays.

1. <u>Pam y mae angen trafodaeth ar arddangos gweithiau celfyddyd?</u>

Mae’r dyfyniad o’r Cynllun Gweithredol ar ddechrau’r papur hwn yn pennu tasg ond nid yw’n ceisio nodi pam y mae’r dasg honno’n un briodol, neu’n un gymharol bwysig, i’r Amgueddfa ar hyn o bryd. Mae’n gas gan natur wactod ac un o’r pethau diddorol a drafodwyd yn y cyfarfodydd oedd pam yr oedd arddangos gweithiau celfyddyd yn teilyngu’r sylw. Ac, yn ogystal, pam yr oedd y cynllun yn cychwyn gyda’r dybiaeth y dylid rhoi blaenoriaeth i roi mwy o amlygrwydd i weithiau (1) o darddiad Cymreig neu a ysbrydolwyd gan Gymru a (2) o’r cyfnod wedi 1945’?

Cafwyd sawl ymateb i’r drafodaeth hon:

1.1 Roedd pobl yn gyffredinol yn cydnabod bod angen y drafodaeth. Roedd yr orielau ‘newydd’ a’u trefn arddangos wedi’u cynllunio, fwy neu lai, bymtheg mlynedd yn ôl ac ychydig o newid a fu yn yr arddangosiadau craidd ers iddynt agor ddechrau’r nawdegau.

1.2 Gwelwyd datblygiad mawr yng ngwaith cymhleth a sylweddol yr Adran Gelfyddyd - casglu gweithiau a gofalu amdanynt, trefnu arddangosfeydd, rheoli benthyciadau, cynghori cyrff cyhoeddus ac aelodau’r cyhoedd - dros y pymtheng mlynedd diwethaf ond efallai nad oedd llawer ohono’n amlwg i’r cyhoedd.

1.3 Roedd yr Amgueddfa ehangach yn newid. Roedd sialensiau a chyfleoedd newydd yn wynebu’r Adran Gelfyddyd gan fod safleoedd newydd yn agor yn Abertawe, Pwll Mawr a Nantgarw a’r amgueddfeydd yn Llanberis, Dre-fach a mannau eraill yn cael eu hailddatblygu.

1.4 Roedd syniadau am ddiwylliant gweledol Cymru ac am swyddogaeth diwylliant gweledol Cymru yn rhyngwladol wedi newid telerau’r drafodaeth ynghylch arddangos (a chasglu) gweithiau celfyddyd yn yr Amgueddfa.

1.5 Roedd datblygiadau gwleidyddol a diwylliannol y blynyddoedd diwethaf wedi esgor ar drafodaeth ddilys am swyddogaeth sefydliadau mewn perthynas â chyflwyno a thrafod hunaniaeth genedlaethol a mynegiant o’r hunaniaeth honno.

1.6 Gellir gweld mynegiant o hunaniaeth mewn llawer o ddisgyblaethau; hanes

cymdeithasol a diwydiannol, archaeoleg; ond roedd llawer, os nad pawb, o'r cyfranwyr yn cydnabod bod gan gelfyddyd ran bwysig i'w chwarae yn archwilio, cynrychioli a herio'r mynegiannau hyn.

Nid mewn gwactod y digwyddodd y trafodaethau hyn. Teimlad cyffredinol y sawl a oedd yn bresennol oedd ei bod yn rhaid i'r Amgueddfa ddatblygu a chynllunio ar gyfer y tymor hir ac mewn ffordd gydlynus. Serch hynny, roedd pobl yn cydnabod bod diddordeb mewn casglu ac arddangos yn ddiddordeb gwleidyddol dilys a'i bod yn rhaid ymateb i storïau gan y cyfryngau am 'storfeydd llychlyd', ac am alwadau am Oriel Genedlaethol newydd trwy wneud gwaith dadansoddi a chynllunio gofalus.

Yn olaf, roedd cryn gefnogaeth i'r farn mai AOCC oedd y corff priodol i arwain wrth ddatblygu strategaethau i gasglu gweithiau celfyddyd a'u harddangos yn y tymor hir mewn ymateb i'r trafodaethau cyhoeddus a gwleidyddol hyn.

Yn neilltuol, roedd bron bawb a oedd yn gweithio ym myd y celfyddydau yng Nghymru ac a gymerodd ran yn y pum cyfarfod cyntaf yn pwysleisio mai'r Amgueddfa oedd y corff priodol i arwain y gwaith o ddatblygu strategaethau yn y maes hwn ac, yn wir, mai dyma'r unig gorff oedd yn abl i wneud hynny.

Mae diwylliannau gweledol Cymru yn bwysig iawn yn y sefyllfa gymdeithasol a gwleidyddol sydd ohoni. Mae'n rhaid i AOCC arwain y gwaith o ddatblygu strategaethau soffistigedig i gyflwyno a chefnogi gwaith hanesyddol a chyfoes.

Mae llawer o bobl ym myd diwylliant yn cefnogi AOCC i wneud y gwaith hwn ond teimlir hefyd ie bod yn rhaid i'r Amgueddfa barhau i ennill y gefnogaeth hon trwy sicrhau newidiadau gwirioneddol a datblygiad yn ei waith o gasglu ac arddangos gweithiau celfyddyd.

Gyda'r amod hwn, y farn gyffredinol oedd mai AOCC oedd y corff gorau a mwyaf priodol i ddatblygu trafodaethau am oriel genedlaethol, neu syniadau eraill tebyg, yng ngoleuni ei arbenigedd, ei bersbectif a'i gasgliadau.

2. Agweddau curadurol – y canon a'r stori

Yn yr holl drafodaethau, fe geisiwyd deall agwedd ymwelwyr â'r Amgueddfa, ac agwedd

darpar ymwelwyr nad ydym yn eu cyrraedd nac yn eu cynnwys ar hyn o bryd. Yn gyffredinol, fe arweiniodd hyn at drafod sut y gellid cynllunio’r gwaith arddangos, yn neilltuol, i gwrdd â disgwyliadau’r amrediad ehangaf o ymwelwyr.

2.1 Roedd llawer o ymwelwyr, yn Gymry ac yn ymwelwyr â’r wlad, yn disgwyl y byddai’r Amgueddfa’n cynnwys ‘y casgliad Cymreig’. Y farn gyffredinol oedd nad oedd y darnau a ddangosir ar hyn o bryd yn bodloni’r disgwyliad hwnnw.

2.2 Fodd bynnag, roedd teimlad cryf hefyd na ellid ysgaru’r genhadaeth honno oddi wrth yr angen i gyflwyno darnau ysbrydoledig o weddill y byd i’r Cymry.

2.3 Nid oes raid i’r ddwy genhadaeth hyn fod benben â’i gilydd – soniwyd am enghreifftiau da o systemau dehongli sy’n tynnu sylw at stôr o gelfyddyd weledol a wnaed yng Nghymru neu a ysbrydolwyd gan Gymru, ac sy’n dangos y gwaith hwnnw yng nghyd-destun hanes rhyngwladol celfyddyd weledol.

2.4 Teimlai rhai o’r cyfranwyr yn gryf bod y ffordd o ddehongli’r arddangosiadau presennol yn syrthio’n brin iawn o esbonio cefndir y gwaith, ei le yn y ‘storïau’ yr oedd yr oriel yn ceisio’u hadrodd, a’r cysylltiadau rhwng y gweithiau. Galwyd am ad-drefnu’r llwybrau rhwng yr arddangosfeydd, am well arwyddion ac am gysylltu gweithiau mewn ffyrdd mwy dychmyglon; ac am ragor o wybodaeth, hawdd i’w chael ac i’w deall, a fyddai’n helpu ymwelwyr i ddeall y gwaith a’i gyd-destun Cymreig.

2.5 Roedd teimlad hefyd nad oedd arddangosfeydd yr AOG yn ceisio ‘adrodd storïau’ wrth yr ymwelwyr. Ar y naill law, gellid gwneud hyn yn y dyfodol trwy arddangos lluniau ar yr un thema, er enghraifft ‘tirluniau’, a byddai gweithiau’n cael eu dewis oherwydd eu gwerth yn darlunio’r thema honno. Ar y llaw arall, gellid mabwysiadu agwedd lai didactig at storïau gan ddefnyddio naratif mwy byw i helpu pobl i ddeall pam yr oedd gwahanol ddarnau’n cael eu dangos iddynt.

2.6 Y farn gyffredinol ymhlith y cyfranwyr oedd y dylid bod yn amheus o rai o’r technegau symlaf ar gyfer dechrau adrodd stori celfyddyd Gymreig. Teimlai llawer ohonynt bod cyfleu datblygiad y diwylliant gweledol yn orchwyl angenrheidiol a gwerthfawr (ac fe dalwyd teyrnged gan lawer i waith Peter Lord ac eraill). Serch hynny, nid oedd llawer iawn o frwdfrydedd o blaid creu arddangosfa ‘barhaol’ o’r ‘canon’ Cymreig er, fel y nodir isod, roedd y farn ychydig yn wahanol yn y cyfarfod cyhoeddus agored.

7. Teimlai’r cyfranwyr y dylid dathlu gweithiau Cymreig - celfyddyd gain, celfyddyd gymwysedig a chelfyddyd werinol - yng nghyd-destun stori ehangach a fyddai’n caniatáu ar gyfer newid yr arddangosfeydd a dangos darnau mewn gwahanol gyd-

destunau.

Roedd y syniad o ddangos gweithiau Cymreig a gweithiau o’r tu hwnt i Gymru yn dal yn dderbyniol. Nid oedd angen aberthu’r naill er mwyn y llall ond byddai’r ffordd ymlaen yn cynnwys gwneud y ddau fath o waith yn fwy dealladwy ac esbonio’r mannau cyswllt rhyngddynt.

Nid y gweithiau a ddangosir ar hyn o bryd yw’r ffordd orau o gyflwyno celfyddyd a wnaed yng Nghymru neu a ysbrydolwyd gan Gymru, naill ai trwy gyflwyno naratif am ddiwylliant gweledol Cymru nac yng nghyd-destun mudiadau rhyngwladol a hanes celfyddyd.

Roedd angen gosod gweithiau mewn ffyrdd newydd a oedd yn rhoi golwg glir i bobl ar ddatblygiad celfyddyd yng Nghymru ac hefyd yn cydnabod ac yn cyfeirio at gysylltiadau â gweithiau eraill.

Gallai’r ffyrdd newydd hyn o osod gweithiau ddeillio o benderfyniadau curadurol yngln â’r storïau y dymunai’r Amgueddfa eu hadrodd wrth ymwelwyr. Gellid cael naratifau’n cysylltu gweithiau ac yn arwain ymwelwyr trwy’r orielau a’r rheiny wedi’u seilio ar themâu neu ar storïau ym maes hanes celfyddyd ond, yn y naill achos a’r llall, byddai angen i’r gweithiau adrodd y storïau mewn ffordd fyw a chlir.

Byddai angen systemau dehongli, yn cynnwys dulliau gosod, labeli, arwyddion a llwybrau i ymwelwyr er mwyn manteisio i’r eithaf ar y drefn newydd hon.

1. Gwaith a swyddogaeth yr AOG - casglu ac arddangos

   Er mai arddangos oedd prif bwyslais yr ymgynghoriad, teimlai’r cyfranwyr yn gyffredinol na ellid ysgaru arddangos oddi wrth y trafodaethau ar gasglu gweithiau a dyletswyddau ehangach yn adran gelfyddyd.

   Cynhaliwyd y drafodaeth am y casgliad, y gofal a roddir iddo, ei hygyrchedd a’r polisi caffael, yng ngoleuni’r sylw a roddwyd gan y cyfryngau yn ystod y misoedd diwethaf i ‘storfeydd llychlyd’ a’r cyhuddiad ei bod yn warth cenedlaethol bod llawer o eitemau’n cael eu cadw o lygad y cyhoedd.

   3.1 Teimlai’r cyfranwyr ei bod yn werth egluro bod cyfrifoldeb ar AOCC, fel sefydliadau eraill tebyg, i arddangos, i wneud ymchwil ac galluogi eraill i wneud hynny, ac i gasglu a chadw defnyddiau er budd yr oesoedd i ddod.

3.2 Yn y cyfarfod cyhoeddus agored, dadleuwyd yn rymus o blaid pwyslais newydd (yn ogystal â datblygu mannau arddangos, systemau arddangos ac adnoddau addas) ar yr Amgueddfa fel canolfan ymchwil a fyddai'n cydweithio â phartneriaid ym maes addysg uwch ar ymchwil i ddiwylliant gweledol Cymru.

3.3 Trwy'r Amgueddfa gyfan, roedd casgliadau helaeth y cydnabuwyd eu gwerth i ymchwilwyr a'u gwerth, yn eu haeddiant eu hunain, fel casgliadau ar gyfer y dyfodol ond y bernid, yn naturiol, nad oedd yn briodol eu harddangos.

3.4 Roedd gan yr Amgueddfa gasgliadau mwy o lawer mewn meysydd fel archaeoleg a'r gwyddorau naturiol ond ni chlywid y ddadl ei bod yn rhaid, na hyd yn oed yn bosib, arddangos yr holl ddefnyddiau hyn.

3.5 Roedd y cyfranwyr yn glir eu meddwl ei bod yn dderbyniol i'r adran gelfyddyd gasglu gwaith at ddibenion ymchwil ac er budd y dyfodol ac i beidio â'i arddangos. Bernid hefyd nad oedd angen arddangos eitemau a oedd eisoes yn y casgliad os nad oeddent yn cyflawni diben rhesymegol o ran y storïau a'r naratifau y cyfeirir atynt uchod mewn perthynas â phrofiad ymwelwyr.

3.6 Roedd cryn gefnogaeth i fwriad yr Amgueddfa, trwy Ganolfan Gasgliadau Nantgarw, nid yn unig i ofalu'n fwy effeithiol am y casgliadau, ond hefyd i sicrhau eu bod ar gael yn haws i'r cyhoedd ar gyfer ymchwil o bob math.

3.7 Ar y llaw arall, gallai achlysuron godi pan fyddai'n rhaid i'r Amgueddfa ddangos gwaith nad oedd yn ei gasgliadau ei hunan er mwyn adrodd storïau byw a chydlynus a llunio naratifau am gelfyddyd Gymreig. Byddai hyn yn golygu datblygu mwy ar y drefn sy'n bod eisoes i gymryd darnau ar fenthyg neu i gydweithio mewn ffyrdd eraill.

3.8 Roedd y papurau cefndir, a chyfraniadau staff yr adran gelfyddyd i'r trafodaethau yn dangos yn glir bod staff yn gwneud cant a mil o wahanol bethau, y rhan fwyaf ohonynt y tu ôl i'r llenni. Roedd teimlad y gallai fod angen edrych mewn ffordd strategol ar yr holl ddisgwyliadau, fel y gellid blaenoriaethu a chanolbwyntio ar dasgau allweddol, fel datblygu, adolygu a dehongli arddangosfeydd a dangosiadau dros dro a rhai parhaol.

Yn gyffredinol, roedd y cyfranwyr yn dymuno gweld swyddogaeth yr Amgueddfa'n cael ei nodi'n glir trwy bennu'r hanfodion a'r strwythurau sy'n sail ar gyfer casglu, arddangos a dehongli.

Er y bydd y casgliad yn ffynhonnell amlwg ar gyfer arddangosfeydd, nid arddangos yw unig ddiben casglu. Rhoddwyd blaenoriaeth i ddatblygu strategaethau clir o ran arddangos a dehongli pa un bynnag a oedd hynny'n arwain at arddangos mwy neu lai

o’r casgliad – cydlyniad y profiad oedd yr allwedd, yn hytrach na nifer y darnau oedd i’w gweld.

Dylid pwysleisio bod y casgliad yn adnodd ymchwil ac y dylid annog pobl i ddefnyddio’r adnodd, trwy Nantgarw a thrwy ddefnyddio adnoddau digidol cynhwysfawr ar y rhyngrwyd.

Os bydd yr her yn y cynllun gweithredol yn esgor ar strategaeth newydd ar gyfer arddangos a dehongli, bydd angen rhesymoli a chyfeirio swyddogaethau staff, gan gyflwyno swyddi ategol newydd a rhoi’r gorau i dasgau ymylol o bosib.

2. Gweithio yng Nghymru

Roedd dimensiwn daearyddol y drafodaeth yn cael ei bwysleisio ym mhob un o’r sesiynau. Ar y cyfan, roedd yn drafodaeth soffistigedig yn hytrach nag yn un syml. Cydnabuwyd y dylai pobl ledled Cymru gael cyfle i weld yr adnoddau cenedlaethol hyn, ond cydnabuwyd hefyd mai Caerdydd oedd y brifddinas a bod yr AOG yn ganolbwynt sylw cenedlaethol a rhyngwladol. Byddai angen llunio strategaethau i ddatblygu cynllun cenedlaethol i ymestyn allan ac i gadarnhau canolbwynt ‘cenedlaethol’ ar gyfer celfyddyd Gymreig ochr yn ochr â’i gilydd.

4.1 Er bod pobl yn sylweddoli bod gan yr Amgueddfa rwydwaith o safleoedd ledled Cymru, roeddent yn cydnabod hefyd bod i’r safleoedd hyn eu pwrpas a’u cyfeiriad eu hunain. Er y gallai’r cyfle godi o dro i dro i ddangos gweithiau celfyddyd yn y safleoedd hyn, ni ellid dibynnu ar hyn fel ffordd o sicrhau cyfle cyson, o safon uchel, i bobl wedl casgliadau ac arddangosfeydd yr Amgueddfa.

4.2 Ym marn y cyfranwyr, roedd y lle y gellid ei roi i’r Amgueddfa, a gwaith yr adran gelfyddyd, yn y rhwydwaith o orielau celfyddyd a geir ledled Cymru yn fwy arwyddocaol o lawer. Er bod pobl yn sylweddoli bod mynd ag arddangosfeydd ar daith yn codi cwestiynau o ran materion amgylcheddol a diogelwch, roedd teimlad amlwg y gellid ac y dylid gwneud mwy i raglennu sioeau teithiol neu gysylltiadau curadurol mewn cydweithrediad â’r rhwydwaith o orielau. Soniwyd am fodelau cymharol o’r tu allan i Gymru.

4.3 Bu llawer o drafod ar faint o flaenoriaeth y dylid ei rhoi i’r haen hon o’r gwaith datblygu o’i chymharu, dyweder, â datblygu adeiladau a chyfleusterau newydd. Ar y cyfan, roedd y cyfranwyr yn awyddus i bwysleisio na fyddai’n rhaid dewis y naill ar draul y llall. Wrth drafod cyfleusterau newydd, mae’n rhaid ystyried yr angen i fod yn weladwy ac yn hygyrch i bobl ledled Cymru. Yn y cyfarfod cyhoeddus agored, serch hynny, dadleuwyd yn rymus ei bod yn rhaid i Gymru sicrhau adnoddau priodol a threfn dda ar gyfer ei darpariaeth ranbarthol cyn cychwyn ar brosiectau newydd canolog.

4.4 Ym marn llawer o’r cyfranwyr, byddai’r rhwydwaith hwn o orielau yn ffordd allweddol o ddatblygu cynulleidfaoedd os oedd AOCC yn awyddus i sicrhau bod rhagor o bobl yn mwynhau ei gasgliadau a’i arddangosfeydd.

4.5 Yn rhannol am ei bod yn hanfodol teithio, ac yn rhannol mewn ymateb i’r hanfodion curadurol a drafodwyd uchod, cafwyd cryn drafod ar bolisi arddangosfeydd dros dro a oedd yn fwy canolog i’r hyn y disgwylir i adran gelfyddyd ei wneud, yn fwy cyson dros amser ac yn manteisio ar well adnoddau.

4.6 Yn cydredeg â hynny, roedd barn gyffredinol bod angen rheoli ansawdd arddangosfeydd dros dro yn ofalus. Yn aml, yr arddangosfeydd dros dro hyn fyddai’r peth cyntaf i ymwelwyr ei weld wrth gyrraedd yr amgueddfa.

4.7 Er nad oedd iddo le amlwg iawn yn y trafodaethau, soniodd nifer o’r cyfranwyr ei bod yn bwysig i Gymru bod sioeau teithiol yn cael eu llunio a allai deithio’n rhyngwladol gan hyrwyddo diwylliant gweledol Cymru.

Wrth drafod y materion oedd yn codi mewn perthynas â Pharc Cathays, roedd llawer yn credu’n gryf ei bod yn bwysig i’r Amgueddfa beidio ag anwybyddu’r materion sy’n deillio o’i darpariaeth ledled Cymru nac o’r potensial i gydweithio â’r rhwydwaith rhanbarthol o orielau ar hyd a lled y wlad.

3. Y cenedlaethol a’r rhyngwladol

Fel y nodwyd uchod, roedd llawer iawn o’r cyfranwyr yn awyddus i bwysleisio nad mewn ffordd ynysig y mae celfyddyd yng Nghymru wedi datblygu nac yn bodoli. Roedd yr artistiaid ymhlith y cyfranwyr, yn arbennig, yn awyddus i bwysleisio natur ryngwladol llawer o waith celfyddydol. Er bod perthynas ddofn yn aml rhwng artistiaid a’r man lle’r oeddent yn byw ac yn gweithio, roedd ganddynt agweddau ac arferion rhyngwladol hefyd.

5.1 Er iddynt gydnabod bod yr awydd i sicrhau proffil uwch ar gyfer gwaith a ysbrydolwyd gan Gymru yn un dilys, roedd llawer o’r cyfranwyr yn teimlo’n gryf ei bod yn rhaid parhau i gasglu ac i arddangos celfyddyd ryngwladol hefyd.

5.2 Dylai’r ffordd y mae’r orielau wedi’u trefnu a’r gwaith dehongli a wneir ynddynt ddatblygu ymdeimlad yr ymwelydd o ddiwylliant gweledol Cymreig ond, yn ogystal, dylai gyfleu’r ffaith fod y gwaith wedi’u greu mewn amgylchedd rhyngwladol.

5.3 Teimlai nifer o'r cyfranwyr mai peth problemus a negyddol fyddai symud tuag at, neu ddatblygu, oriel genedlaethol a fyddai'n dathlu diwylliant gweledol Cymreig gan anwybyddu'r cyd-destun rhyngwladol.

5.4 Fodd bynnag, galwyd am ymdeimlad newydd o ryngwladoldeb a fyddai'n ehangu ei weledigaeth i gynnwys celfyddyd o draddodiadau heblaw'r Gorllewin.

5.5 Gwnaed ymgais soffistigedig i gamu ymlaen oddi wrth y ddadl 'celfyddyd Gymreig v celfyddyd ryngwladol' trwy gyflwyno 'penodoldeb diwylliannol' i'r drafodaeth. Y ddadl oedd y gellid ac y dylid trafod ac arddangos diwylliant gweledol Cymru yn benodol ond hefyd, ar y cyd â gwaith o ddiwylliannau eraill, yn enwedig rhai a oedd yn berthnasol i brofiadau economaidd, gwleidyddol neu ddiwylliannol Cymru.

Roedd teimlad cryf y dylid dathlu diwylliant gweledol byw arbennig Cymru yng nghyd-destun diwylliant gweledol rhyngwladol. Felly byddai gwaith Cymreig penodol, hanesyddol a chyfoes, yn cael ei ddangos mewn ffordd gydlynus ond heb ei ynysu oddi wrth waith gweddill y byd.

4. Cynnwys gweithiau cyfoes

Roedd yr artistiaid yn neilltuol, a nifer o'r cyfranwyr eraill, yn teimlo'n gryf ei bod yn rhaid i'r Amgueddfa, ac unrhyw 'Oriel Genedlaethol', wrthsefyll y demtasiwn i gyfyngu ei sylw i 'artistiaid marw'. Efallai bod y perygl o ganolbwyntio'n llwyr ar weithiau hanesyddol i'w weld amlycaf yn y syniad o greu orielau o gelfyddyd Gymreig, neu mewn ymdrechion i arddangos 'campweithiau' gan artistiaid Cymreig o'r gorffennol.

6.1 Roedd teimlad cryf y dylai cais y Cynllun Gweithredol ar i'r ymgynghoriad ystyried 'rhoi mwy o amlygrwydd i weithiau o'r cyfnod wedi 1945' gynnwys gweithiau cyfoes.

6.2 Gan nad oedd gan Gyngor y Celfyddydau ei gasgliad ei hunan, fe'i hystyrid yn bwysig i'r Amgueddfa gasglu gwaith sy'n cael ei wneud yng Nghymru ar hyn o bryd, hyd yn oed os nad oes cynlluniau i gael arddangosfa barhaol o'r gwaith.

6.3 O ystyried y cais i roi mwy o amlygrwydd i weithiau o'r cyfnod wedi 1945, mae mannau arddangos a chyfleusterau'r Amgueddfa yn amlwg yn anaddas i ddangos gosodweithiau, gwaith fideo a gwaith amser-benodol. Os yw'r Amgueddfa'n wirioneddol awyddus i ddangos y math hwn o waith, bydd yn rhaid darparu mannau addas i wneud hynny.

6.4 Aeth llawer o'r cyfranwyr yn bellach, a sôn am y ffordd y mae sefydliadau fel Amgueddfa Celfyddyd Fodern Iwerddon yn cynnal rhaglenni preswyl parhaus, ffyrdd y gall cynulleidfaoedd weld artistiaid wrth eu gwaith, a chomisiynau a chysylltiadau gydag

artistiaid sy’n gweithio.

6.5 Roedd hwn yn faes lle teimlai rhai cyfranwyr y byddai’n well cael Oriel Genedlaethol nag ‘Amgueddfa’ gan fod pobl yn meddwl am amgueddfa fel lle i warchod defnyddiau hanesyddol. Teimlai eraill bod trefnu i artistiaid cyfoes weithio yng nghanol y dreftadaeth weledol hon yn gyfle allweddol. Barn arall wedyn oedd y gellid defnyddio’r syniad o’r ‘stori’ yn sail i arddangos gwaith hanesyddol a gwaith cyfoes gyda’i gilydd.

Roedd llawer yn gefnogol i’r syniad y dylai’r amgueddfa ymwneud â chelfyddyd weledol gyfoes yng Nghymru, ac â diwylliant poblogaidd yn fwy cyffredinol. Roedd gwaith artistiaid Cymreig cyfoes yn rhan allweddol o’r ffordd y câi diwylliant gweledol Cymru ei arddangos yn yr Amgueddfa ac, yn sicr, byddai’n elfen eiconig mewn unrhyw oriel genedlaethol newydd.

5. <u>Agweddau Amlddisgyblaethol a Rhyngddisgyblaethol</u>

Gan fod sylw’n cael ei roi i gelfyddyd, archaeoleg a’r biowyddorau yn yr AOG, bu llawer o drafod ar bosibiliadau, potensial a phroblemau gweithio’n amlddisgyblaethol (gwneud mwy nag un peth yn yr adeilad) ac yn rhyngddisgyblaethol (disgyblaethau’n cydweithio tuag at yr un nod). Bu cryn drafod hefyd ar y ffordd yr oedd y ffactorau hyn yn effeithio ar ganfyddiad neu frwdfrydedd ymwelwyr. O ystyried yr adnoddau a’r lle sydd ar gael a phrofiadau ymwelwyr, aeth y cyfranwyr ymlaen i feddwl am faterion oedd yn codi yngln â gweithio mewn ffordd amlddisgyblaethol a’u perthynas â materion yngln ag ailddatblygu’r safle presennol neu ddatblygu safleoedd newydd yn y dyfodol.

7.1 Gan ddechrau â’r syniad Fictoraidd o amgueddfa amlddisgyblaethol, roedd pawb yn cydnabod bod datblygiad prosiectau hanes diwydiannol a chymdeithasol ar safleoedd eraill wedi gadael cyfuniad neilltuol o elfennau ym Mharc Cathays. Ni fyddai modd sicrhau amgueddfa wir ryngddisgyblaethol trwy ddim ond gwneud i’r gwahanol elfennau yn AOG gydweithio.

7.2 Roedd enghreifftiau da o integreiddio celfyddyd i arddangosfeydd ehangach a seiliwyd ar ‘storïau’, ac o ddefnyddio celfyddyd i ddehongli disgyblaethau eraill. Yn fras, serch hynny, cydnabuwyd bod gan y gwahanol ddisgyblaethau eu naratifau a’u storïau eu hunain i’w hadrodd. Dylid edrych ar waith rhyngddisgyblaethol fel cyfle yn hytrach na fel y brif egwyddor.

7.3 Holwyd a oedd cynnwys gwahanol ddisgyblaethau gyda’i gilydd o dan yr un to yn helpu’r gynulleidfa i ddeall diben AOCC mewn gwirionedd. Yn y diwedd, roedd y safbwyntiau ar y mater yn weddol gytbwys. Er mwyn canfod a oedd cynnig amrediad

eang o bethau'n denu mwy o bobl i weld yr holl wahanol elfennau neu a oedd yn amharu ar y dasg o ddatblygu cynulleidfa ar gyfer y gwahanol elfennau unigol, teimlid y byddai angen rhagor o ymchwil ymhlith y gynulleidfa.

7.4 Serch hynny, hyd yn oed yng nghyd-destun y drafodaeth hon, roedd teimlad y byddai'n gwneud gwell synnwyr ac yn rhoi profiad mwy byw i ymwelwyr pe bai'r dehongli cyffredinol yn dechrau yn y fynedfa i'r AOG ac yn parhau trwy'r amgueddfa i gyd a'i fod wedi'i seilio ar weledigaeth gliriach o'r stori yr oedd yr Amgueddfa'n dymuno'i hadrodd wrth gynulleidfaoedd.

Mae gan ddiwylliant gweledol pob cenedl ran neilltuol i'w chwarae yn natblygiad ac adnewyddiad yr hunaniaeth genedlaethol. Er mwyn deall naratif y diwylliant gweledol hwn, roedd angen ei arddangos ar wahân i ddisgyblaethau eraill.

Fodd bynnag, roedd llawer o gyfleoedd i gydweithio â'r disgyblaethau eraill hyn mewn amryw o ffyrdd i adrodd straeon ehangach am y genedl, a thu hwnt i'r genedl.

Roedd angen holi'r gynulleidfa a'r ddarpar gynulleidfa pa mor effeithiol oedd cydleoli gwahanol ddisgyblaethau neilltuol mewn un adeilad.

Yn sicr, ni ddylid gorfodi naill ai integreiddio na gwahanu. Roedd gan AOCC gryfderau allweddol mewn arbenigeddau penodol, yn cynnwys ymchwil, casglu ac arddangos. Ar rai adegau, byddai'n briodol gweithio'n rhyngddisgyblaethol ac, ar adegau eraill, byddai'n well defnyddio naratifau clir o un ddisgyblaeth.

6. Syniadau ar gyfer diben a lleoliad Oriel Genedlaethol?

Rhoddwyd ystyriaeth fanwl i'r 'angen' am Oriel Genedlaethol i Gymru, a pherthynas yr adeilad neu'r sefydliad hwnnw ag AOCC. Er bod gwahaniaeth barn ar y mater, roedd cryn gytundeb hefyd yngln â thelerau'r drafodaeth. Fodd bynnag, roedd safbwynt y cyfarfod cyhoeddus agored ychydig yn wahanol ac fe nodir hynny ar wahân yn y nodyn isod.

8.1 Ym marn rhai, ni waeth faint o ymdrech a wnâi'r Amgueddfa, nid yr AOG bresennol, ochr yn ochr â disgyblaethau eraill ac mewn adeilad anaddas, oedd y lle gorau i gyflwyno naratif am ddatblygiad celfyddyd yng Nghymru, a'i chyfraniad at hunaniaeth y genedl.

8.2 Roedd rhai o'r cyfranwyr yn teimlo'i fod yn ddyhead dilys, mewn egwyddor, i ddatblygu adeilad newydd safonol yn arbennig ar gyfer celfyddyd Gymreig.

8.3 Er eu bod o’r farn bod angen ystyried anghenion Cymru gyfan a sicrhau bod cynifer ag oedd modd o bobl o bob man yn cael gweld y gweithiau, teimlai’r rhan fwyaf mai’r brifddinas oedd y lle ar gyfer datblygiad mor eiconig.

8.4 Roedd bron bawb a drafododd y mater hwn o’r farn fod ei gysylltiad â gwaith artistiaid cyfoes yn elfen hanfodol. Ar un wedd o leiaf, byddai gwahanu oddi wrth yr AOG yn golygu ymadael â’r gair Amgueddfa a’i gysylltiadau hanesyddol.

8.5 Ymhlith y sawl a siaradodd yn gadarnhaol am greu cyfleuster o’r math, roedd teimlad cyffredinol mai datblygiad o waith adran gelfyddyd AOCC oedd hwn. Gallai Oriel Genedlaethol newydd gymryd holl gasgliadau’r Amgueddfa (nid y gweithiau Cymreig yn unig), a holl swyddogaeth yr adran gelfyddyd. Yn sicr, dyma oedd barn y rhai a gredai y dylai celfyddyd Gymreig barhau i gael ei gweld yng nghyd-destun rhyngwladoldeb eang.

8.6 Ond wedyn, a fyddai hunaniaeth diwylliant gweledol Cymru’n mynd ar goll unwaith eto ymhlith y gweithiau ehangach? Ni chafodd y dilema hwn ei ddatrys ac mae’n un o’r prif sialensiau y mae’n rhaid i unrhyw gynllun i greu oriel genedlaethol fynd i’r afael â hi.

8.7 Roedd llawer i’w ddysgu o brofiad mannau eraill. Roedd Amgueddfa Ulster wedi symud tuag at wahanu ei chasgliadau celfyddydol ac roedd wrthi’n datblygu adeilad ar wahân; roedd sawl un o sefydliadau’r Alban ac Iwerddon wedi datblygu gwahanol fodelau ar gyfer gwahanu celfyddyd oddi wrth ddisgyblaethau eraill eu Hamgueddfeydd, ac i ddangos eu traddodiadau cenedlaethol eu hunain ar wahân. Cydnabuwyd nad oedd un ateb syml. Er enghraifft, roedd teimlad bod Amgueddfa newydd yr Alban yn wannach gan nad oedd ynddi elfen gref o’r celfyddydau cain a chymwysedig yn ei harddangosiadau, gan eu bod nhw yn yr orielau cenedlaethol.

8.8 Cafwyd trafodaeth soffistigedig a manwl ar swyddogaeth bosibl oriel genedlaethol. Nid oedd neb o’r farn bod yr angen i arddangos rhagor o’r gwaith hanesyddol sy’n cael ei storio ar hyn o bryd yn un o’r prif resymau dros sefydlu oriel genedlaethol.

8.9 Er bod pobl yn cytuno’n fras bod llawer i’w ennill trwy sicrhau bod diwylliant gweledol Cymru’n cael ei arddangos mewn ffordd fyw ac amlwg, roedd cryn betruster yngln â’r posibilrwydd o greu sefydliad newydd. O ble y deuai’r adnoddau? A fyddai, mewn gwirionedd, yn cael ei gynnal dros y blynyddoedd tra byddai’n meithrin cynulleidfa a gweledigaeth guradurol? A fyddai’r adnoddau ar gael i’w alluogi i ddatblygu mewn ffordd a fyddai’n cyflawni disgwyliadau pobl ar gyfer sefydliad mor eiconig?

8.10 Teimlai llawer na ddylid rhoi blaenoriaeth i ddatblygu adeilad neu sefydliad newydd ar draul cefnogi gwaith cyfoes, datblygu arddangosfeydd dros dro arwyddocaol ac uchel eu safon, a gweithio ledled Cymru.

8.11 Roedd llawer o blaid troedio’r tir canol gan ailddatblygu adeilad Parc Cathays. Roedd cryn gefnogaeth i weledigaeth a oedd yn cynnwys codi estyniad i’r adeilad presennol lle gellid canolbwyntio ar ddiwylliant gweledol Cymru heb anwybyddu’r cyd-destun rhyngwladol. Byddai’r adeilad newydd hwn yn hyrwyddo gwaith newydd. Gan y byddai’n agos at orielau’r adeilad presennol lle y canolbwyntir ar ddangos gwaith hanesyddol rhyngwladol ac y byddai modd mynd a dod rhwng y ddau le, byddai’n bosib sefydlu cysylltiadau a chyd-destunau rhyngddynt ond, yn ogystal, warchod hunaniaeth yr oriel newydd.

8.12 Cytunwyd yn gyffredinol y byddai gan AOCC ran ganolog i’w chwarae yn y drafodaeth. Beth bynnag a ddeuai ohoni, roedd yn bwysig i’r Amgueddfa arwain y drafodaeth ac roedd rhaid sicrhau bod prosesau gwleidyddol a diwylliannol yn rhoi’r gallu i AOCC ddatblygu atebion.

Mae’r drafodaeth ynghylch dymunoldeb cael adeilad neu sefydliad newydd ymhell o gael ei datrys. Ar y naill law, gwelir cyfleoedd a rheidrwydd i adeiladu a dathlu diwylliant gweledol y genedl, ond dadleuir hefyd bod datblygu gwaith celf cyfoes o leiaf mor bwysig a chodi adeiladau newydd.

Efallai y byddai sefydliad newydd yn fodd o hyrwyddo gwaith celfyddydol a hygyrchedd ledled Cymru, cynnal gwaith cyfoes a meithrin cysylltiadau rhyngwladol cryfion ond, ar y llaw arall, o ddibynnu ar greu sefydliad newydd, gallai’r elfennau hyn i gyd ddioddef oedi a rhwystredigaeth.

Credai rhai y gellid sicrhau’r amlygrwydd a’r adnoddau a ddaw i sefydliad newydd, heb dorri’r cysylltiadau â’r gweithiau celfyddyd rhyngwladol, y defnyddiau hanesyddol a’r casgliadau a’r arddangosiadau sy’n perthyn i ddisgyblaethau eraill, trwy ddatblygu safle Parc Cathays mewn ffordd uchelgeisiol.

Yr Amgueddfa ddylai arwain y drafodaeth hon a’r Amgueddfa, gyda’i hadnoddau a’i sylfaen ymchwil, yw’r corff priodol i ddatblygu’r opsiwn y penderfynir arno o ganlyniad i’r drafodaeth.

Byddai angen adnoddau mawr i ddatblygu Oriel Genedlaethol a fyddai’n cyflawni’r holl ofynion hyn ac a fyddai’n gynaladwy, yn gadarn ac yn cael ei chydnabod yn rhyngwladol. Heb yr adnoddau hynny, mae’n bosib na fydd modd ymgymryd â’r gwaith datblygu a gwella y mae angen ei wneud ar hyn o bryd.

7. Safbwynt y cyfarfod cyhoeddus agored

Fel y soniwyd uchod, roedd trefn a chylch gwaith y cyfarfod cyhoeddus yn wahanol iawn i’r

pum cyfarfod arall, llai o faint, a oedd eisoes wedi’u cynnal.

Mewn rhai ffyrdd, felly, mae’n syndod bod y syniadau a ddaeth o’r cyfarfod hwn mor debyg i’r rhai a leisiwyd yn y trafodaethau llai.

Er hynny, roedd gwahaniaethau yn y pwyslais ac mewn nifer o’r syniadau penodol a gyflwynwyd.

Y prif wahaniaeth oedd bod llawer o bobl yn y cyfarfod agored yn galw am greu Oriel Genedlaethol mewn ymateb i’r angen i ddatblygu a dathlu diwylliant gweledol y genedl, ar y cyd â ffyrdd eraill o fynegi’r diwylliant hwnnw.

Teimlid mai Oriel Genedlaethol oedd y cam nesaf rhesymegol yn y broses o adnabod a mynegi hunaniaethau diwylliannol Cymru. Roedd y broses hon eisoes yn cynnwys datblygu ymrwymiad ysgolheigaidd i lenyddiaethau Cymru yn Saesneg; a gwaith a oedd yn mynd ati o safbwynt Cymreig i ddeall hanes Cymru.

Roedd y duedd hon i fynegi’r hunaniaeth ddiwylliannol a’i dathlu mewn Oriel Genedlaethol ac ati, yn allweddol i’r broses o adfywio Cymru mewn ffordd ehangach – ni fyddai modd sicrhau adfywiad economaidd a chymdeithasol heb yr hyder a’r gwerth a ddeilliai o adfywiad diwylliannol.

Roedd llawer yn galw am greu oriel genedlaethol ac, yn gyffredinol, roeddent yn synied am ffurf a strwythur yr oriel yn yr un modd â’r cyfranwyr yn y trafodaethau blaenorol y cyfeirir atynt uchod.

Mynegwyd sawl barn am y dull presennol o arddangos gweithiau celfyddyd – roedd rhai’n gwerthfawrogi’r dull presennol ac yn ei amddiffyn ac eraill yn teimlo bod angen bod yn fwy radical os oedd bwriad i newid y sefyllfa mewn modd arwyddocaol.

Dadleuai rhai dros adeilad newydd amlwg ac addas ond teimlai eraill y byddai’n well creu estyniad a oedd yn gysylltiedig ag adeilad Parc Cathays.

Roedd rhai’n credu’n angerddol bod angen gwell adnoddau ar ddiwylliant yn gyffredinol, er mwyn sicrhau bod hunaniaeth a mynegiant diwylliannol yn cyfrannu at adfywiad cenedlaethol.

Dadleuwyd yn huawdl ac yn argyhoeddiadol dros gymryd camau pendant i fynd i’r afael â’r blaenoriaethau a nodwyd yn y Cynllun Gweithredu ac a oedd yn cael eu derbyn yn gyffredinol.

Fodd bynnag, mynegwyd awydd i weithredu ar flaenoriaethau eraill hefyd. Gellir crynhoi’r rhain trwy nodi chwe ‘amod’ a ddeilliodd o’r cyfarfod. Cyflwynwyd y pedwar cyntaf gan Jenni Spencer Davies, a’u cymeradwyo gan nifer sylweddol o’r cyfranwyr. Ychwanegwyd y ddau

ddiwethaf gennyf i o ganlyniad i bwyntiau penodol a gafodd gefnogaeth yn y cyfarfod.

1. Ni ddylid datblygu adnodd cenedlaethol newydd ar draul atgyweirio, ailddatblygu a sicrhau adnoddau priodol ar gyfer y rhwydwaith o orielau ac amgueddfeydd rhanbarthol a geir ar hyd a lled Cymru. Roedd llawer o'r farn mai hynny ddylai ddod yn gyntaf.
2. Os datblygir 'oriel genedlaethol' mae'n rhaid bod iddi swyddogaeth glir iawn a fydd wedi'i mynegi'n ofalus a'i hystyried yn fanwl o ran bod yn berthnasol i'r diwylliant, yn gydlynol ac yn taro tant gyda'r gynulleidfa.
3. Cyn cychwyn ar yr 'oriel', dylid sicrhau bod y sawl yr byddai a wnelont â'i dyfodol yn cytuno'n fras ar ei chenhadaeth a'i pholisi.
4. Dylid creu partneriaethau newydd rhwng AOCC ac amgueddfeydd ac orielau rhanbarthol yn sylfaen ar gyfer Oriel Genedlaethol newydd. Roedd y cyfranwyr o'r farn y byddai angen adnoddau newydd ar AOCC i gynnal y partneriaethau newydd hyn - er bod angen cadw 1 uchod mewn cof.
5. Roedd llawer o'r cyfranwyr o'r farn ei bod yn bwysig sicrhau na chollir y gwaith da a wneir gan yr orielau celfyddyd presennol a'r agweddau gwerthfawr arnynt wrth ddatblygu Oriel Genedlaethol newydd.
6. Ni ddylid datblygu cyfleusterau newydd fel Oriel Genedlaethol ar draul yr angen i sicrhau bod artistiaid Cymru'n cael cydnabyddiaeth deilwng a'r rhai sy'n llunio ac yn adnewyddu ein diwylliant yn cael y gefnogaeth haeddiannol.

Yn y cyfarfod hwn, cafwyd cefnogaeth gyffredinol ac, weithiau, angerddol, i'r syniad o greu cyfleuster neu sefydliad newydd o dan faner yr Oriel Genedlaethol – a fyddai'n ddatblygiad eiconig, yn gam allweddol yn y broses o feithrin hunaniaeth a hyder cenedlaethol ac yn ymateb ymarferol i anghenion artistiaid a chynulleidfaoedd. Er hynny, roedd y cyfarfod yn awyddus i bwysleisio'r amodau y mae'n rhaid eu cyflawni er mwyn sicrhau ei fod yn llwyddiant ac yn dderbyniol i gynulleidfaoedd ledled y wlad.

Er bod cefnogaeth i rôl yr Amgueddfa'n datblygu ac yn meithrin y consensws a ddisgrifir yn 3 uchod, ac i'r angen i wneud rhagor o waith ar swyddogaeth, lleoliad a statws y datblygiad, roedd awydd pendant i weld y drafodaeth yn symud ymlaen.

1. <u>Goblygiadau o ran gwaith cynllunio'r Amgueddfa</u>

Beth, felly, oedd cyfraniad y llu syniadau hyn, a oedd weithiau'n groes i'w gilydd, i gynlluniau AOCC i symud ymlaen?

> 10.1 Cafwyd cytundeb bras ar y blaenoriaethau ar gyfer y tymor byr a'r tymor canolig. Roedd y rhain yn canolbwyntio ar yr angen i sicrhau bod orielau Parc Cathays yn cael eu gosod allan mewn ffordd a oedd yn galluogi pobl i fynd trwyddynt, o'r naill ben i'r llall, gan ddefnyddio gosodiadau gofalus a systemau dehongli byw a llawn gwybodaeth er mwyn creu cyfres o orielau a oedd yn rhoi

proffil uwch i waith Cymreig, ond a oedd hefyd yn talu sylw i'r cyd-destunau a'r cysylltiadau.

10.2 Roedd yn bwysig cael ffyrdd newydd o sicrhau bod pobl yn gallu gweld rhannau o'r casgliad nad oedd yn rhan o'r arddangosfeydd hyn. Roedd yn amlwg bod angen datblygu dulliau digidol ond, yn ogystal, roedd yn bwysig datblygu swyddogaeth Nantgarw a gweithio ar raglen gyhoeddi newydd.

10.3 Un o'r blaenoriaethau y soniwyd amdanynt yn y trafodaethau oedd clustnodi adnoddau ar gyfer rhaglen o arddangosfeydd dros dro a gwneud gwaith cynllunio curadurol manwl ar eu cyfer hefyd.

10.4 Roedd y cyfranwyr yn sylweddoli y byddai angen adnoddau ar gyfer y gwaith o drefnu dull newydd o ddangos lluniau, dehongli, arddangosfeydd dros dro a dosbarthu gwaith. Beth bynnag a ddigwydd, bydd yn rhaid i'r Amgueddfa edrych ar waith yr adran gelfyddyd i weld a oes beichiau y gellir eu codi oddi ar ysgwyddau staff i'w galluogi i wneud trefniadau ar gyfer y gwaith newydd hwn.

10.5 Cafwyd pwyslais cryf ar weithio ledled Cymru, yn fwy na thebyg mewn partneriaeth â'r rhwydwaith o orielau celfyddyd weledol. Byddai angen i staff allweddol o'r Amgueddfa gynllunio'r bartneriaeth hon a'i threfnu. Wrth drafod oriel genedlaethol newydd, byddai angen ystyried a yw'r rhwydwaith o orielau ac amgueddfeydd rhanbarthol yn cael digon o adnoddau.

10.6 Er bod prinder adnoddau'n peri i bobl deimlo'n rhwystredig â'r cyfleusterau presennol, roedd llawer o'r farn hefyd bod anawsterau'n deillio o ddiffyg hyblygrwydd y mannau a'r trefniadau arddangos, diogelwch a threfniadau technegol eraill, a threfniadau staffio a rheoli. Byddai'n rhaid canfod ffyrdd o chwalu'r rhwystrau hyn er mwyn gwireddu llawer o'r syniadau a fynegwyd yn y broses drafod.

10.7 Fodd bynnag, roedd yn amlwg bod angen rhagor o fannau arddangos, a'r rheiny'n rhai mwy addas er mwyn cymryd cam pendant ymlaen i gyflawni cylch gwaith y Cynllun Gweithredol.

10.8 Bydd gofyn i'r Amgueddfa ystyried y posibiliadau hyn yng ngoleuni'r adolygiad cyffredinol o'r lle sydd ganddi a chynlluniau a gofynion disgyblaethau eraill. Er hynny, daeth nifer o bosibiliadau i'r amlwg.

10.9 Yn ôl y cyfranwyr, gan mai damwain hanesyddol, i raddau helaeth, oedd cydleoli gwahanol ddisgyblaethau yn yr AOG, byddai modd gwneud cryn dipyn o waith ad-drefnu.

10.10 Teimlai'r cyfranwyr hyn, o leiaf, nad oedd yn rhaid i'r gwaith ymchwil, cadw casgliadau, gweinyddu ac arddangos gael eu gwneud o dan yr un to. Efallai mai'r swyddogaeth amlwg ar gyfer Parc Cathays fyddai bod yn ganolfan arddangos.

10.11 Yn sicr, roedd teimlad y gellid gwahanu celfyddyd oddi wrth y disgyblaethau eraill ac roedd rhai pobl o'r farn y byddai hyn yn syniad da. Ond teimlai rhai hefyd y byddai 'oriel gelfyddyd' newydd yn sefydliad bregus ac y byddai'n anodd iddo fod yn ddigon soffistigedig a sicrhau digon o adnoddau i fodloni'r holl ddisgwyliadau a fyddai arno.

10.12 Roedd teimlad cyffredinol, yn y pum cyfarfod cyntaf, ei bod yn bwysicach, mewn sawl ffordd, gwneud gwaith arddangos, dehongli, 'adrodd-stori', trefnu rhaglenni dros dro, dosbarthu gwaith a gweithio ledled Cymru na chreu sefydliad newydd.

Er gwaetha'r pryderon am sicrhau adnoddau a chefnogaeth briodol i gorff newydd, nid oedd y cyfarfod cyhoeddus agored mor betrus â'r pum cyfarfod blaenorol ynghylch creu cyfleuster neu sefydliad newydd. O drafodion y cyfarfod cyhoeddus agored, gall yr Amgueddfa ymdeimlo â gwir ddyhead llawer o bobl i greu man neilltuol a phendant ar gyfer dathlu diwylliant gweledol Cymru.

I gloi, roedd y dyheadau a fynegwyd yng nghylch gwaith y Cynllun Gweithredol yn rhai dilys. Gellid cymryd nifer o gamau tuag at eu gwireddu yn ddiymdroi. Yn y tymor hwy, teimlid mai'r Amgueddfa oedd y sefydliad priodol i ddatblygu a gwireddu prosiectau mwy uchelgeisiol i ddathlu diwylliant gweledol y genedl, a'i chreadigrwydd cyfoes. Dylid bod yn ofalus wrth ystyried datblygiadau fel hyn, gan osgoi syniadau simplistig am y sefydliadau a'r prosiectau y gellid eu creu a chan sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i gefnogi'r cynlluniau datblygu.